30 mun

# Helfa rhostirol

## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Taflenni rhywogaeth wedi'u hargraffu (L_C_ 1)
- Tocynnau gwobrwyo
- Y daflen ffeithiau

**I chwarae'r gêm:**

Gellir chwarae'r gêm y tu allan gyda phlant yn rhedeg i sefyll y tu ôl i'r ateb cywir, neu mewn ystafell ddosbarth gyda phlant yn pleidleisio am yr atebion cywir gyda slipiau papur a'u henwau arnynt, neu drwy roi eu dwylo i fyny.  Mae'r cyfarwyddiadau isod ar gyfer y fersiwn tu allan.

1. Gosodwch y chwe llun o'r rhywogaethau ar y llawr gyda digon o le o'u cwmpas er mwyn i'r plant ymgynnull.
2. Darllenwch y ffeithiau fesul un. Bydd y plant yn rhedeg at ba bynnag rywogaeth maen nhw'n teimlo y mae'r ffaith yn cyfeirio ati.
3. Mae'r plant sydd y tu ôl i'r rhywogaeth gywir yn derbyn tocyn.
4. Parhewch i ailadrodd hyn hyd nes bod rhywun yn cyrraedd chwe thocyn.
5. Yna, gellir trafod y ffeithiau a'r rhywogaethau fel dosbarth.

# Helfa rhostirol



## Ffeithiau:

- Gallwn gyrraedd cyflymderau o 45mya - **Sgwarnog**
- Rydym yn rhoi genedigaeth i rhwng 6 a 20 neidr ifanc - **Gwiber**
- Mae gennym ni led adenydd o 20cm - **Clochdar y cerrig**
- Rydym yn nythu mewn ogofau môr, hen weithfeydd cloddio, adeiladau gwag - **Y frân goesgoch**
- Mae angen i ni ddefnyddio'r haul er mwyn cynhesu - **Gwiber**
- Mae ganddo bigau miniog i atal anifeiliaid rhag pori – **Eithin**
- Rydym yn paru am oes - **Y frân goesgoch**
- Gellir ein gweld yn aml yn eistedd ar frig llwyni'r eithin - **Clochdar y cerrig**
- Credir ein bod wedi cael ein cyflwyno i'r DU yn ystod y Cyfnod Rhufeinig - **Sgwarnog**
- Gellir ei ddefnyddio fel llifyn lliw melyn – **Eithin**
- Mae hefyd yn cael ei alw'n 'Honos' - **Grug**
- Rydym wrth ein bodd yn bwyta morgrug - **Y frân goesgoch**
- Roedd yn arfer cael ei ddefnyddio i greu ysgubellau - **Grug**
- Mae'n arogli fel cnau coco - **Eithin**
- Mae gennym ni alwad uchel finiog sy'n swnio fel dwy garreg yn cael eu taro ynghyd - **Clochdar y cerrig**
- Gall fyw am dros 40 mlynedd - **Grug**
- Nid ydym yn tyrchu, ond rydym yn cysgodi mewn pantiau bas yn y ddaear neu'r gwair - **Sgwarnog**
- Mae gennym ni lygaid coch - **Gwiber**




Llun: Vincent van Zalinge on Unsplash




Llun: Jean-Jacques Boujot is licensed with CC BY-SA 2.0.




Llun: Jo Reeve is licensed with CC BY 2.0.




Llun: Svetlana Sinitsyna on Unsplash


© Samantha Bryan.
Eithin


Gwiber
Llun: naturalengland is licensed with CC BY-NC-ND 2.0